**Y PWYLLGOR ARCHWILIO AC 01-99 (agd)**

Dyddiad: 21 Medi 1999

Amser: 2.00pm

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**AGENDA**

**Eitem 1: Sylwadau agoriadol y Cadeirydd**

**Eitem lafar**

Bydd y Cadeirydd yn agor cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Archwilio.

Bydd yn tynnu sylw’r aelodau at nifer o faterion allweddol sy’n deillio o’r Rheolau Sefydlog sy’n berthnasol i’r Pwyllgor wrth iddo gynnal ei fusnes.

**Eitem 2: Sylwadau Agoriadol gan yr Ysgrifennydd Cyllid**

**Eitem 3: Amcangyfrif drafft o Incwm a Threuliau Archwilydd Cyffredinol Cymru**

**Papurau:** AC 01-99(p.1); AC 01-99(p.2); AC 01-99(p.3) a AC 01-99(p.4)

Mae papur 1 yn cynnwys memorandwm eglurhaol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Mae papur 2 yn cynnwys amcangyfrif drafft yr Archwilydd Cyffredinol o incwm a threuliau ei swyddfa ar gyfer y flwyddyn sy’n diweddu 31 Mawrth 2001. Mae angen i’r Pwyllgor archwilio’r amcangyfrif a’i roi gerbron y Cynulliad maes o law.

Mae papur 3 yn cynnwys rhaglen arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer cynnal archwiliadau gwerth am arian yn 2000-2001 a’r blynyddoedd wedi hynny. Mae Deddf Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i’r Archwilydd Cyffredinol gadw barn y pwyllgor mewn cof wrth bennu ei raglen.

Gwahoddir y pwyllgor i

- benderfynu ar nifer a natur yr astudiaethau sydd eu hangen arno a hysbysu'r Cynulliad o'r gofynion ariannol cysylltiedig; a

- rhoi barn ragarweiniol i'r Archwilydd Cyffredinol o'r pynciau sydd o ddiddordeb penodol iddynt.

Rhestr i'r Pwyllgor er gwybodaeth ar adroddiadau gwerth am arian diweddar a baratowyd gan y Swyddfa Archwilio Cenedlaethol yw papur 4.

**Eitem 4: Gweithrediad y Pwyllgor Archwilio**

**Papurau:** AC 01-99(p.5) a AC 01-99(p.6)

Mae papur 5 yn nodi rhai o argymhellion y Cadeirydd ar weithrediad y Pwyllgor a phynciau addas i'w hystyried mewn cyfarfodydd cynnar

Mae papur 6 yn gwahodd y Pwyllgor i nodi'r canllawiau gweithdrefnol arfaethedig ar gyfer ymdrin â gohebiaeth sy'n ymwneud â gwaith archwilio.

**Eitem 5: Archwilio Awdurdodau Lleol a Chyrff a Noddir gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru**

**Papurau:** AC 01-99(p.7)

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi paratoi nodyn i'r Pwyllgor ar drefniadau archwilio awdurdodau lleol yng Nghymru a chyrff a noddir gan awdurdodau lleol megis yr heddlu a'r gwasanaethau tân.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau**

**Medi 1999**